# Cyd-ddatblygu Cwricwlwm

Crëwyd yr adnodd hwn gan un o’r is-grwpiau cynllunio i rannu elfennau o’r broses cyd-ddatblygu yn ehangach.

Gall dechrau cynllunio'r cwricwlwm deimlo'n gyffrous ac yn heriol. Bydd gwybod pwy ddylai gymryd rhan, a bod yn glir ynghylch y dull y byddwch yn ei fabwysiadu, yn sicrhau bod lleisiau pawb yn cael eu clywed.

Gall y broses o drafod a chreu gofod helpu i ddatblygu’r meddwl a gall fod yn ddefnydd effeithiol iawn o amser.




Cyd-ddatblygu a greodd y Cwricwlwm i Gymru, ac, i gyflawni ei botensial, dylai ymarferwyr barhau â’r dull hwn drwy roi amser i feddwl, trafod a gwrando.

Gall rhai problemau cwlwm deimlo’n anodd eu goresgyn – gall trafodaeth a dysgu proffesiynol helpu i’w datrys.

Yn ystod sgyrsiau a luniwyd ar y cyd am y cwricwlwm, gallai’r angen am ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel ddod i’r amlwg. Mae nodi'r rhain yn bwysig er mwyn cynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol.

## Dechrau dylunio cwricwlwm

Mae gan ysgolion ac athrawon lefelau gwahanol o gynefindra â Chwricwlwm i Gymru. Dechreuwch trwy ystyried yr hyn yr ydych chi, a'ch cydweithwyr, yn ei wybod yn barod.

Ystyriwch pa aelodau o'ch tîm ddylai fod yn rhan o'r broses hon, a sut y gall pob aelod gyfrannu orau.

Penderfynwch o'r cychwyn pryd y byddwch yn adolygu'ch cynllunio am y tro cyntaf.

Trafodwch sut mae eich cynllunio yn cyd-fynd â'r weledigaeth ar gyfer cwricwlwm eich ysgol.

Gofynnwch: "Oes gennym ni unrhyw anghenion dysgu proffesiynol o'r cychwyn cyntaf?"

## Adolygu ac ymateb

Mae adeiladu'r cwricwlwm yn heriol a rhyddhaol. Mae'r Daith i Gyflwyno'n dweud y 'dylai'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm rymuso ysgolion i fod yn hyderus yn y cwricwlwm y maent yn ei ddylunio.'

Wrth i chi adolygu eich cwricwlwm, efallai yr hoffech chi feddwl am y cwestiynau hyn:

Gofynnwch: "Sut mae'r canllawiau ar ddylunio'ch cwricwlwm yn cefnogi ein hymateb?"

Gofynnwch: "Sut mae egwyddorion cynnydd yn llywio ein myfyrdod a'n gwerthusiad?"

Gofynnwch: "Ydyn ni'n creu cylch adolygu sy'n ein helpu i ymateb i anghenion newidiol dysgwyr?"

Rhowch amser i gyfranogwyr feddwl – efallai na fydd bod dan bwysau i gyrraedd canlyniadau yn helpu.

## Trafodaeth barhaus

Cael deialog agored gyda'ch tîm. Rhannwch eich barn, gofynnwch gwestiynau, trafodwch eich syniadau a gwrandewch ar eraill.

Defnyddiwch ysgogiad niwtral ar gyfer trafodaeth, fel enghreifftiau o ddylunio cwricwlwm a ddefnyddiwyd mewn mannau eraill, neu yn y gorffennol. Ystyriwch eu cryfderau a'r hyn y gallwch ei ddysgu oddi wrthynt.

Defnyddiwch adnoddau a rennir, fel y gyfres seminar Camau a recordiwyd.

Gofynnwch: “Sut mae gweledigaeth eich cwricwlwm yn cefnogi eich ffordd o feddwl?”

Gofynnwch: “Ydych chi wedi sefydlu rhwydweithiau cymorth colegol? A all cydweithwyr clwstwr helpu?”

Ailymwelwch â phwy sy'n ymwneud â'ch proses ddatblygu ac ystyriwch a allai lleisiau eraill ychwanegu gwerth pellach.

## Dysgu proffesiynol

Pa gymorth uniongyrchol neu anghenion dysgu proffesiynol sydd gennych chi wrth adolygu neu greu eich cwricwlwm?

Ystyried adnoddau a chanllawiau a ddarperir gan bartneriaid rhanbarthol ac awdurdodau lleol.

Ystyriwch a allai mathau penodol eraill o ddysgu proffesiynol helpu i symud eich gwaith yn ei flaen.

## Clymau

Wrth i chi adolygu neu greu eich cwricwlwm, efallai y bydd heriau'n codi. Gall fod yn ddefnyddiol meddwl am y rhain fel clymau i'w datod. I ddatod y clymau:

Dychwelyd at ganllawiau a deunyddiau ategol Cwricwlwm i Gymru: ar ôl adolygu'r rhain, a oes angen unrhyw beth pellach arnoch?

Gofynnwch: "Pwy allwn ni ei gynnwys i helpu i ddatrys ein problem cwlwm?"

Gofynnwch: "Ydw i'n hyderus bod yr adnodd dysgu hwn yn cefnogi'r dibenion y tu ôl i gynllun fy nghwricwlwm?"

Rhannwch eich syniadau gyda thimau ehangach i ddatrys eich problemau cwlwm.